



www.llennatur.com

# Bwletin Llên Natur 16

Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas

**"Gwefan y mis" - Cyngor Sir Conwy**

Mai 2009



Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Cymru

## CAFWDYD HYD I'R GORAD HON

ym Mae Poppit, Sir Benfro yn ddiweddar.

Credir ei fod o leiaf 2000 o flynyddoedd oed ac o bosibl yn dyddio o gyfnod pan oedd lefel y môr yn llawer is na heddiw.

Beth yw cored? Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, dyma yw: 1. argae i ddal pysgod, sef pyst wedi eu gyrru i wely afon neu yn y môr a gwail wedi eu plethu rhyngddynt; 2. argae i Gronni dŵr; 3. cryw; neu 4. cawell pysgod: *weir; dam; fishgarth* yn Saesneg. Yr un yw'r elfen cor- mae'n debyg ag sydd yn corlan.

**Dyma rifyn olaf Bwletin misol Llên Natur a gyhoeddir ar bapur a'i anfon trwy'r post.** Mi fydd y Bwletin yn parhau i ymddangos fel o'r blaen ar-lein. Chi ddarllenwyr y fersiwn papur, os am barhau i weld cynnyrch prosiect Llên Natur, estynnwn groeso i chi ymuno â Chymdeithas Edward Llwyd i gael copi "omnibws" deuflynyddol o gylchgrawn newydd LLÊN NATUR yn rhad ac am ddim fel aelod, neu yn y siopau am £1.50. Bydd y rhifyn cyntaf yn barod erbyn lawnsio'r prosiect yn swyddogol ar 25 Mehefin 2009 ym Mhlas Tan y Bwlch. Gobeithio y cawn ni eich croesawu yn ôl i'r gorlan yn fuan - a chroeso hefyd i'r lansiad. **NI FYDD RHIFYN YM MEHEFIN O GWBL OHERWYDD GWYLIAU**

## Ffordd neb i nunlle

Cefais fy atgoffa o un o ganeuon Christy Moore pan ymwelais â'r grib nadreddog o gerrig tanddwr a elwir yn Sarn Badrig. Ffordd i nunlle, heb bwrpas, na phererin i'w cherdded, oedd *The Road to Annascaul*. Fe'i codwyd hi yn ystod Newyn Dato Iwerddon i gyfiawnhau cymorth prin i'r newynog gan y wladwriaeth.

Pa oferedd greodd Sarn Badrig? Nid sarn go iawn mohonni, na mur chwaith, ond gwaddodion rhewlifol. Mae'r sarn, ac olion mawn a chlai ar draeth Llanaber cyfagos hyd heddiw, yn dyst i ffaith, ac i chwedl, y deyrnas ddfiflanedig "Cantre'r Gwaelod".

Mae'r Sarn yn igam-ogamu o "ynys" Mochras i ganol Bae Ceredigion am ddeunaw milltir, ac fe'i seriwyd ar fy nghof byth oddiar i mi symud i fyw i Ardudwy 30 mlynedd yn ôl. Nid wyf yn byw yno bellach, ond mi ges gyfle yn ddiweddar i ymweld â'r Sarn mewn cwch am y tro cyntaf erioed.

Roedden ni bererinion ffodus wedi dewis trai isaf y flwyddyn, a diwrnod godidocaf yr haf bach Mihangel ar gyfer ein taith. Araf y daeth cerrig y Sarn i'n golwg. Ein blas cyntaf ohonni oedd swm y tonnau yn tasgu megis ar draeth rhithiol, mewn môr mor llyfn â llefrith. Yn fuan ar ôl y dadorchuddio, glaniodd mintai fechan o forwennoliaid pigddu ar y creigiau, yn falch o'r cyfle i orffwys ar ôl plymio, plymio a phlymio eto am y silod mân disglair nad oedd yn ein baint ni i'w gweld o fwrdd y cwch.

Yng ngwres y prynhawn gwelsom fod cwmni arall gennym. Glöynnod y fantell goch (*red admirals*), a myrdd

o fân bryfetach eraill, a laniai yn awr ac yn y man ar baentwaith llachar y cwch neu ar ddillad lliwgar ei griw. Cafodd y Môr Celtaidd ei dramwyo fel hyn yn Oes y Saint. Lledaenu'r Newyddion Da oedd eu perwyl hwythau wrth hwylio o benrhyn i benrhyn, o Lydaw i Gernyw, ac o Benfro i Lŷn. Glanient lle bynnag y bu croeso - a llonydd. Ond lledaenu eu had a'u hil o bellafion byd oedd perwyl y pryfed glewion y diwrnod hwn. Tybed a fu gan Enddwyn, Dwywe, Tecwyn a Tanwg y fath osgordd wrth gyrraedd i



Llun: Rhys Jones

sefydlu'r Achos cynnar ym mân blwyfi Ardudwy deg?

Cwta awr y bu'r Sarn ar ei brig. Golchodd y môr dros ei llifddorau o'r diwedd, ac aeth y deg Seithenyn pigddu ar eu hynt yn cecru yn ôl eu harfer. Wrth droi am borthladd Pwllheli, ac adref, ni chlywsom swm clychau unrhyw eglwys uwchben dwndwr dibaid peiriant y cwch.


Addasiad o erthygl yn y Cymro (DB) yn 2006)

## Camp 'mudo

Gwrando ar Gerallt Pennant ar Galwad Cynnar [4 Ebrill 2009] yn son am Ddriw Benaur yn ffluo o Riga, Latvia i Enlli mewn 12 diwrnod. Mae o tua 1200 milltir o ffordd, felly roedd yr aderyn yn ffluo 100 milltir y dydd. Hefyd sbio ar [www.wildlife.org](http://www.wildlife.org) a sôn am gywion Manx Shearwater yn ffluo 6000 i 7000 mewn llai na bythefnos o Skomer i Dde America - mae hynny'n tua 500 y dydd! Mae'n bosib credu felly y buasai oedolyn yn gallu ffluo i ogledd Sbaen [fel y datganodd RM Lockley], tua 600 milltir un ffordd, mewn dau ddiwrnod i nôl bwyd i'w cywion.

Wil Williams, Bodorgan

## TG Walker yn Norwy 27 Mai 1968



Daethom i'r porthladd hwn [*Porsgrunn*] am hanner awr wedi dau yn y prynhawn, ar ddiwedd mordaith dra phlesurus a difyr. Ni chawsom wynt na glaw ar hyd y mil milltir, dim ond haul braf trwy gydol yr amser ac awelon ysgafn a môr tawel...Bûm yn gwyllo sawl Fieldfare yn pigo bwyd ar y lawntiau ac yn ei gludo yn eu pigau i'w cywion. Yma maent yn eithaf dof, yn dra gwahanol i'r hyn fyddant yn Sir Fôn yn ystod y gaeaf. Mae yna adar to, a Drudwys a Brain Llwydion, ond nid wyf wedi gweld dim math arall...

Llythyr gan TGW at ei gyfaill William Evans (gyda diolch i WE am y llythyr a'r llun hefyd.)

## Prifant y gog



Ar yr 8 Mehefin 1977 mi ddois ar draws nyth corhedydd y waun ger Maes y Garnedd, Llanbedr, ger Harlech gyda'r cyw bach yma yn ei llenwi



Erbyn y 15 Mehefin (cofnodais y dyddiad ar y llun) es yn ôl i'r nyth ac mi roedd y cyw wedi tyfu cymaint a hyn.



Aeth wythnos arall heibio cyn i mi ymweld â'r nyth eto - 22 Mehefin - a phrin oeddwn yn gallu tynnu ei lun mor fawr ydoedd. Mae cyw gog yn cael siar 5 o gywion arferol corhedydd y waun.(DB)

## Colofn Huw Pob Tywydd



This is a photo taken by Peter Hope Jones on Ynys Enlli. It is a classic view of Cirrus uncinus, (hooked Cirrus). This cloud is a warning of a change to unsettled, windy and wet weather, often appearing as the first sign of change after a long settled spell of fine weather. This type of cloud nearly always appears first in the West, and moves towards the East. It is at great height, 6 to 10km above ground level, composed of ice crystals. This type of cloud often moves at great speed, driven by the jet-stream. If the cirrus spreads across the whole sky, and the sky turns a milky colour, rain and wind are almost certain. As a Scottish weather saying goes..."Streaky clouds across the wind foretells rain" The cirrus clouds owe their thin, streaky appearance to the action of the wind, and are often called mares' tails for that reason. (HHJ)

## Paraplwi'r Pireneau

Roedd Francis Jammes (1868-1938) yn un o feirdd mawr ei ardal enedigol yn y Pyreneaeu.

*Avec ton parapluie bleu et tes brebis sales,  
avec les vêtements qui sentent le fromage,  
tu t'en vas vers le ciel du coteau, appuie  
sur ton baton de houx, de chene ou de neflier...*

"A'th ambarel glas a'th famogau mwdlyd, a'th ddillad sy'n drewi o gaws, rwyf ti'n mynd am awyr y bryniau, yn pwysu ar dy ffon o gelyn, o dderw neu o ferysbren"

Dwi'n cofio wrth gerdded mynyddoedd Pireneau Gwlad y Basg, gweld y bugeiliaid yn yr uchelfannau yn cario eu hambarelau. Bugeiliaid Cymru, gair i gall - ynteu ai arwydd mai mor wyntog yw mynyddoedd Cymru o'u cymharu a'r mynyddoedd hynny DB

\*NODYN o Wikipedia a gwefan y Woodland Trust: "The Medlar's normal range is south-east Europe to western Asia, although it has been cultivated for centuries beyond its normal range. The trees are dark in appearance, with contorted trunks, and solitary wild flowers on the branches. Medlar (Mespilus) is a genus of the family Rosaceae. One, Common Medlar Mespilus germanica, is a long-known native of southwest Asia and possibly also southeastern Europe. They feature an unusual fruit, which requires bletting to eat, and was historically very common, though it is now rare".

## Ffenoleg - y wyddor newydd

This spring day (10 Ebrill) of 1736 the first swallow arrives at Stratton Strawless, Norfolk. It's noteworthy only because of what Robert Marsham does next. He writes the fact down. No-one has ever thought of doing such a thing. The science of phenology is born

(Woodward and Penn; The Wrong Kind of Snow)

L l ê n y C r e i g i a u

## Bu tawelwch yn y twlc

"Ange passe" ("mae yna angel yn mynd heibio") meddai un o'r cwmni amlieithog amlddiwylliannol wrth lenwi'r saib yn y sgwrsio mewn te-parti difyr a gawsom ni ddysgwyr y Llydaweg yn ddiweddar. Adfywiodd y sgwrs yn syth pan ysgogodd hyn y sylw am ddywediad cyffelyb yn y Llydaweg - *gwerzhet eo bet ar moc'h* ("mae'r moch wedi cael eu gwerthu") gan ymwelydd o ardal Gwened (Vannes) yn neheubarth Llydaw. Dilynodd trafodaeth ar y gair *gwiz* (hwch). Aeth y sgwrs yn ei blaen gyda Chymraes yn ein plith o Benllŷn yn son am ei chof o alw'r moch gyda rhyw *gis-gis-gis* ers llawer dydd. Cofiai hefyd ei theulu yn galw ei brawd bach yn "hen gis-gis bach" wrth iddo wneud ei lanast wrth fwyta. Un arall o'n plith wedyn yn dweud mai hen air Cymraeg am foch yw *gwŷs* a bod y gair yn fyw o hyd yn yr enw Caerwys. Yr angel a lefarodd yn iaith y moch...! DB

## Ffawydd C'lanmai

*Kentan a viz Mae - Ar mintin-man ema bamet andud n'int ket e welet barrou. Mae doch gozik kement ti a zo, el liorzhiou, ar an teilegi. Brezhonekaet eo ar vro!*

Mai y Cyntaf. Mae pobl nad ydynt yn Llydawyr wedi eu syfrdanu yma wrth weld canghennau ffawydd wedi eu gosod ar wyneb bron pob tŷ, yn y gerddi, ar y tasau tail. Y wlad wedi ei lydewigeiddio! Os am ddarllen mwy, gweler cylchgrawn mawr Llên Natur, sydd yn ymddangos ar bapur yn unig, i aelodau am ddim neu yn y siopau am £1.50. [Gol.]

## Jac y Neidiwr

Nid yw'r enw Jac y neidiwr yn ymddangos yng Ngeiriadur yr Academi. O lle daeth yr enw. Does bosib ei fod yn hen iawn gan na fu'r planhigyn yma fwy na chanrif, os hynny. Fe'i hadwaenir hefyd fel



*Impatiens glandulifera*, policeman's helmet, neu Indian Balsam. Mae 'na gofnod o'r enw hwn yn Planhigion Cymru a'r Byd, D. Hayes (1995), Gwasg Maes Onn. Clywais yr enw hefyd gan Dafydd Davies ac eraill o'r de, ynghyd â fersiwn arall

ddifyr 'Jac y jwmpwr' yn ardal Llanelli / Cwm Gwendraeth (Jacob Davies). Enw arall diddorol am ei chwaer rhywogaeth *Impatiens noli-tangere* gan D. Hayes yw 'cranc anhydryn'

Twm Elias Beth yw eich enw chi ar y planhigyn hwn? Oes yna enwau eraill wedi ymddangos? Paentiwyd y llun uchod gan Gwenddolen Massey cyn y rhyfel gyntaf. Yn groes i'w harfer ni chafodd ei labelu ganddi. Tybed a oedd y planhigyn yn rhy newydd ym Môn iddi ei adnabod? Yn ddios llun Jac y Neidiwr *Impatiens glandulifera* ydyw. Cafodd ei gyflwyno i Brydain fel planhigyn gardd yn 1839 cyn cael ei gofnodi yn y gwyllt am y tro cyntaf yn 1855 ym Middlesex. Canrif yn ddiweddarach cynyddodd yn aruthrol. Mae'n ddiddorol bod chwynyn estron a phlagus yn ein hoes ni yn bresennol yn ôl pob golwg ym Môn pan oedd Gwenddolen Massey yn gweithio.

Diolch i Oriel Môn am ganiatad i'w atgynhyrchu

## Nythu cyntaf pedryn y graig ym Môn...yn ôl Ted Breeze-Jones



On MAY 2nd, 1948, in company with W. T. Griffiths, I watched between six and eight Fulmars (*Fulmarus glacialis*) flying along the cliff face

at Penmon, Anglesey. Two fulmars were resting on an earth-covered rock ledge about 50 feet up the cliff. They were courting and one of them was sitting in a shallow scrape on the earth. We disturbed these birds and found that the scrape was empty. We visited the same place on May 30th and found a Fulmar sitting in the same shallow scrape as before. When we tried to disturb the bird it raised its body and revealed an egg, which it moved before settling down again. Further attempts to move the bird met with no success. A second bird seen sitting on a grassy ledge may have been brooding, but we could obtain no proof.

E. V. Breeze Jones.

[The first recorded breeding of the Fulmar in North Wales took place in 1945 at Great Orme's Head, Caernarvonshire, which is some ten miles east of Penmon across Beaumaris Bay. In Anglesey Fulmars have been recorded during the breeding-season at South Stack, Holyhead, but breeding has not been proved. In view of Mr. Breeze Jones's interesting note it seems worth placing on record other developments in North Wales since the note quoted above by the Editors was published. No more news has been received of Fulmars at the South Stack, where they may of course also be breeding by now. At St. Mary's Well, at the tip of the Llyn Peninsula, one Fulmar was seen flying up and down the cliff, but not landing, on May 21st, 1945, by G. A. Deane and Miss S. L. Sack. This is the first sign of possible "interest" in Llyn. Birds continue at Great Orme and at Little Orme were proved to breed for the first time in 1948 by H. P. Evans, who found two pairs to have laid. One of the eggs disappeared at the end of the first week of June, Lesser Black-backed Gulls being suspected; the other hatched off on July 25th.

JAMES FISHER. *British Birds* Rhif 5 Mai 1949

## Geirfa Malu William Jones, Aberdaron

3 Mai 1867 Bum yn Felin Edeyrn yn **malu gwenith**

29 Ebrill 1880 Bum yn y Felin yn **silio**

22 Ion 1884 Llifo cyllill felin eithin.

20 Chwe 1884 Anfon **Telaid** o haidd i'r Felin

21 Chwe 1884 Cael blawd o'r Felin

31 Maw 1884 Myned a deng **hobaid** o geirch i'r Felin i silio a **telaid** o haidd

9 Ebr 1884 Bum yn y Felin yn silio deg hobed.. tri hobed o **silid**

21 Ion 1885 Nithio pump hobed a hanner o haidd.

O'r DYDDIADUR [www.llennatur.com](http://www.llennatur.com)

Gyda diolch Miss Roberts a Mrs Miners

## O'r Dyddiadur

26 Mai 1953... *we all went out to Aber yesterday and were eating our lunch on the way to the falls when a terrific storm broke. Water just poured down the mountains & hailstones like shillings fell on us. We were soaked to the skin in five minutes and on the bus we could do nothing but laugh because we looked as though we'd fallen in the Falls! Went to Arcadia last night. Skyliners are the best on.*

Ochr gefn cerdyn post



Llun: Ifor Williams. Cawod o genllysg o Lanfaglan i gyfeiriad Waunfawr.

Roedd dydd Sul y 24ain, dau ddiwrnod ynghynt, yn boeth iawn. Dyma ddywed ein arbenigwr Huw Holland Jones: *interesting..I looked up the weather around 26 May 1953 from various sources. The day before the hail & heavy rain at Aber Falls had been hot. The weather map for 25 May shows a SE air flow over N. Wales with the High in the N.Sea. The weather map for the next day shows a col situation between two highs and two lows. By the 26th. the temperature has dropped and the wind direction has swung to the north. It's probably this drop in temperature & change of wind direction, linked with the col situation, that allowed the instability that led to the creation of cumulonimbus (the only cloud associated with hail and heavy rain such as described in the postcard).*

## Llymriata yn Llŷn



28 Mai 1915 Gorffan palu tatws diweddar. Hel llymriaid.

7 Meh 1917 Hel llymriaid, glaw a trannau. Dal salmon ar y gefnen. (Dyddiadur Griffith Thomas) ..ac mae nhw'n cadw'r traddodiad o hyd.....

7 Mai 2004 Codi 4 o'r gloch y bore i fynd i ddal llymriaid ar draeth Ty'n Tywyn. Roedd yn draddodiad yn Llŷn i drigolion y pentrefi gwledig fynd i lawr i'r traethau tywod i ddal llymriaid. Dim ond ar y distyll tra mae'n gwawrio yn ystod mis Mai y

mae dal llymriaid. Maent wedi eu claddu yn y tywod ac maent yn symud yn gyflym iawn. Buom ni'll dau yn palu am 2 awr i ddal digon ar gyfer un pryd i 5 ohonnom.

gwefan [www.rhiw.com](http://www.rhiw.com).

## Anffawd Meibion Owen Gwyrfai tua 1840

Bu bron i feibion [Owen Gwyrfai] Thomas ac Evan foddi yn y môr gyferbyn â Tan y Bont, Caernarfon [Greengate Street yn awr] yn y Cei Llechi, lle y mae llawer o longau yn llwytho llechi: ac nid oedd y ddau frawd y pryd hyny ond oddeutu chwech oed. Fe aeth Thomas i'r cwch oedd gerllaw, ac yr oedd llanw y môr yn uchel ar y pryd, gyda'r amcan o ddal mân bysgod, gydag edau a phin wedi ei blygu megys bach pysgota; ac wrth roddi yr edau a'r bach i'r môr, yn mhen ôl y cwch, fe aeth Thomas, ryw fodd, yn rhy bell ar y frest, nes y dadymchwelodd i'r môr. Ni wyddom yn iawn pa fodd y syrthiodd Evan i'r môr, pa un ai oddiar y borthfa neu y cei, ynteu a neidiodd efe i'r môr, neu syrthio yn ddamweiniol yn ei ddychryn a wnaeth. Ond beth bynag am hyny, fe neidiodd Mate llong oedd gerllaw i'r cwch a nodwyd, ac a achubodd y ddau frawd rhag dyfrllyd fedd.

Gemau Gwyrfai, sef gweithiau barddonol a rhyddiaethol y diweddar Owen Williams o'r Waenfawr (Owen Gwyrfai) gan Thomas Williams (1904).

## Cyllell wair



Tudur Pritchard a'i gyllell wair

Mae'r gyllell wair yn arf ddelfrydol i'w bwrpas, sef torri gwair o das o wair rhydd cyn dyfodiad y *baler*. Mae'r handlen yn sefyll i un ochr fel nad yw eich migyrnau yn taro yn erbyn y gwynab o wair sydd newydd ei dori. Mae'r llafn o haearn caled tenau, fel y gall weithio heb ei hogi, ac mae o ar ffurf bwa fel ei fod yn llithro i fewn i'r das, ac yn torri wrth rwbio i lawr drwyddi. Gan ei fod yn nodd i iddi [iaith Sir Fôn, Gol.] mae'n cadw'n blwm at

i lawr, a'i hyd hefyd yn gynorthwy i'w gadw i dorri'n blwm. Mae'r wyneb o wair yn hollol galed gan fod y das wedi setlo a chaledu ers y cynhaeaf. Yn wir, mor galed yr aiff y gwair, ac mor dda yw'r gyllell am dorri, fel y cofiaf i ffrind ers stalwm allu chwarae pêl ar wyneb toredig y das. Yr oedd fannu yn fwy llyfn na wal y fferm! Erbyn heddiw cadwaf y gyllell wair gan ei bod hi'n hwylus i dorri silwair a silwair sych (*haylage*) o fynau mawr.

Tudur Pritchard, Plas Penmynydd, Môn gynt Mi gofiwn beth oedd tas wair hyd dragwyddoldeb, cyllell wair hwyrach hefyd - ond atgofion fel hyn yn unig sydd yn cofnodi ansawdd y das a'r bywyd o'i chwmpas fel y bu. "Llên natur" ar ei gorau (Gol.)

## "Yr epa yw tad y dyn.."

Gan fod pawb yn deud rhwbath am Darwin; dyma englyn gan Pedrog (cyn-Archdderwydd) 1853-1932. Mae'n amlwg bod Pedrog yn meddwl mai "yr epa yw tad y dyn" oedd Darwiniaeth:

Os Darwin iawn ystyria - o ble, bobl

Bach y daethom yma,

Cyn pen tipyn, at epa

Daw pob pen i ddweud "Papa".

(Allan o "Stori 'Mywyd' gan Pedrog)

Gwilym Owen (Wrecsam)